WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr David Waggett
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Swyddfeydd Bwrdeistrefol
Y Ganolfan Ddinesig
Glynebwy
NP23 6XB

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 605A2013 |
| **Dyddiad** | 16 Rhagfyr 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **4** |

Annwyl David

## Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 2 Hydref 2013, rhoddais fy marn ar b'un a oedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae hefyd yn ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ynghylch p'un a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

**Yn fy marn i, ac yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau gwella yn unol â'r Mesur ond mae lle i atgyfnerthu ei drefniadau ymhellach.**

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- Cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ei Gynllun Gwella Corfforaethol ar gyfer 2013/14 (yr Adroddiad ar Berfformiad) ar 31 Hydref 2013.
- Fel sy'n ofynnol gan y Mesur, mae'r Adroddiad ar Berfformiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn 2012-13 ac yn nodi'n glir sut mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur.
- Mae'r Adroddiad ar Berfformiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurir gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol yn unol â'r Mesur.
- Mae'r Adroddiad ar Berfformiad yn cynnwys manylion y ffordd y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithredu.

- Mae'r Adroddiad ar Berfformiad yn nodi sut mae'r Cyngor wedi ymateb i'm hargymhelliad statudol a wnaed yn Asesiad Corfforaethol Tachwedd 2011. Mae hefyd yn cynnwys manylion yr argymhellion mwyaf diweddar a wnaed gennyf yn fy llythyr ar 2 Hydref 2013 a'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Penodedig ar 31 Hydref 2013 o dan adran 25 (2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
- Mae'r Adroddiad ar Berfformiad ar gael yn Gymraeg a Saesneg i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor. Mae hefyd ar gael ar ffurf copi caled a gall fersiynau mewn fformatau eraill, fel Braille a sain, gael eu darparu ar gais.

Gallai'r Cyngor gydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac rwyf wedi nodi nifer o feysydd lle y gall y Cyngor wella ei Adroddiad ar Berfformiad:

- Mae angen i'r Cyngor atgyfnerthu ei drefniadau i gasglu gwybodaeth a fydd yn ei alluogi i asesu p'un a yw wedi cyflawni ei amcanion gwella. Er enghraifft, ni lwyddodd y Cyngor i gasglu rhai o'r mesurau perfformiad a bennwyd ganddo i asesu'r gwaith o gyflawni'r amcan gwella i ddarparu amgylchedd glân a braf i'w fwynhau ac i ymfalchïo ynddo, drwy wrando ar ei ddinasyddion ac ymwelwyr a hyrwyddo'r hyn a wnaiff drwy gydol 2012-13. O ganlyniad, ni all y Cyngor na darllenwyr asesu'n effeithiol p'un a gyflawnwyd yr amcan gwella penodol hwn ai peidio.
- Roedd rhai o werthusiadau'r Cyngor yn gyfyngedig, yn anghytbwys ac nid oeddent yn egluro'n llawn wybodaeth am berfformiad. Un enghraifft yw'r gwerthusiad o'r amcan gwella 'Mae Canol Trefi yn fwy llewyrchus, atyniadol a hyfyw o ganlyniad i adfywio ffisegol a rheoli canol trefi er budd siopwyr a busnesau'. Mae'r gwerthusiad yn cyfeirio at gyfraddau eiddo gwag yng nghanol trefi, nad oedd yn fesur a oedd yn gysylltiedig â'r amcan gwella penodol yn y Cynllun Gwella, ac nid yw'n nodi'n glir effaith camau a gymerwyd yn 2012-13 ar y gwaith o gyflawni'r amcan gwella. Mae angen i'r broses o werthuso pob amcan gwella fod yn glir, yn dryloyw ac yn gytbwys, gan alluogi'r darllenydd i ddeall a yw'r Cyngor wedi llwyddo i gyflawni amcanion gwella yn ystod 2012-13.
- Nid yw'r Adroddiad ar Berfformiad yn cyflwyno perfformiad yn glir yn erbyn amcanion gwella blwyddyn ariannol 2012-13. Mae'r Adroddiad ar Berfformiad yn cynnwys perfformiad yn ystod chwarteri 3 a 4 ar gyfer 2012-13 a chwarter 1 ar gyfer 2013-14. Mae'r agwedd hon ar yr Adroddiad ar Berfformiad yn cyflwyno darlun dyrys o berfformiad gan fod dwy flwyddyn ariannol dan sylw.
- Caiff cynghorau eu hannog i ddefnyddio gwybodaeth o adolygiadau cymheiriaid, asesiadau craffu, data meincnodi a gwybodaeth fwy ansoddol arall fel boddhad cwsmeriaid. Nid yw'r Adroddiad ar Berfformiad yn cynnwys dadansoddiad mor fanwl â hyn a gallai fod yn fuddiol defnyddio sail dystiolaeth ehangach er mwyn helpu'r Cyngor i gynnal hunanwerthusiad mwy effeithiol o'i berfformiad a chyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar gyflawniadau.

- Mae'r Adroddiad ar Berfformiad yn cynnwys adran ar Weithio gydag Eraill i Ddarparu Gwell Gwasanaethau lle mae'n disgrifio nifer o'i brif gydweithrediadau. Er bod y wybodaeth gryno yn darparu trosolwg o'r gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt, gellid gwella'r Adroddiad ar Berfformiad drwy nodi buddiannau a chanlyniadau bwriadedig y prosiectau cydweithredol a'r partneriaethau hyn. Byddai nodi'r terfynau amser ar gyfer cyflawni'r canlyniadau sy'n deillio o weithgarwch cydweithredu'r Cyngor, megis arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau o ran darparu gwasanaethau, yn galluogi'r Cyngor i fesur, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau mwy tryloyw ar fuddiannau gwirioneddol gweithgareddau cydweithredol.
- Er nad oes rhaid i'r Cyngor lunio crynodeb o'r Adroddiad ar Berfformiad, mae'n cydnabod gwerth gwneud hynny. Mae'r Crynodeb yn seiliedig ar y tri chanlyniad lefel uchel a gellid ei wella drwy ddarparu gwerthusiad clir o bob amcan gwella a'r hyn a gyflawnwyd yn ystod 2012-13.

**Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion**

Rwy'n gwneud rhagor o gynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn ar ben cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennyf yn fy Llythyr Asesu Gwelliant ym mis Rhagfyr 2012. Byddaf yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo systemau casglu gwybodaeth manwl gywir ar gyfer mesurau perfformiad a ddefnyddir ganddo i reoli, asesu a chyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn erbyn amcanion gwella. |
| C2 | Os yw'r Cyngor yn llunio crynodeb o'i asesiad o berfformiad (cam 2), dylai sicrhau bod y crynodeb yn cyflwyno darlun clir a chytbwys o berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella yn ystod y cyfnod adrodd perthnasol. |

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n ategu gwaith rheoli perfformiad a chyflwyno adroddiadau'r Cyngor yn ystod y misoedd nesaf ac yn cyflwyno adroddiad arno, yn ogystal â chrynhoi'r holl waith a wnaed gennyf a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14 mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Cyngor y byddaf yn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir,

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

copi i: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Non Jenkins – Rheolwr

Jackie Joyce - Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad